**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, YNYS-Y-BWL)**

**GORCHYMYN (DIRYMU, AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO, AROS CYFYNGEDIG)**

**CILFACH LWYTHO I GERBYDAU NWYDDAU TRWM A CHILFACH BARCIO I'R ANABL) 2026**

# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## System Unffordd Arfaethedig

Mae'r Cyngor wedi llunio cynigion i gyflwyno system unffordd yn Stryd Glyn-mynach a Stryd y Glyn, Ynys-y-bwl, a hynny er mwyn:

- Hwyluso'r daith ar y ffordd i gerbydau
- Osgoi perygl i bobl neu gerbydau eraill sy'n defnyddio'r ffordd ac atal tebygolrwydd y perygl yma rhag codi

Diben y system unffordd fyddai caniatáu i gerbydau fynd i mewn i Stryd Glyn-mynach/Stryd y Glyn o gyffordd Stryd Glyn-mynach/Stryd Robert, a chyflwyno trefniadau dim mynediad i'r rheiny sy'n dymuno troi o Stryd Robert i Stryd y Glyn. Manylion pellach am y cyfeiriad teithio a ganiateir, fel y nodir gan y saethau ar lun cysylltiedig y cynnig (TM24/491/PN).

Bwriad y cynnig yw lleihau'r risg o dagfeydd o ganlyniad i yrwyr yn aros i gerbydau sy'n dod tuag atyn nhw fynd heibio, gan fod llawer o geir yn parcio yma ac felly'n cyfyngu ar lif dwyffordd y traffig. Dyma obeithio y bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiad rhwng cerbydau.

## Diwygiadau Parcio, Aros a Llwytho Arfaethedig

Mae'r Cyngor wedi llunio cynigion i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg a/neu gyfyngiadau gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar hyd rhannau o Stryd Glyn-mynach a Stryd y Glyn, Ynys-y-bwl, a hynny er mwyn:

- Hwyluso'r daith ar y ffordd i gerbydau
- Osgoi perygl i bobl neu gerbydau eraill sy'n defnyddio'r ffordd ac atal tebygolrwydd y perygl yma rhag codi

Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau na fydd ceir yn parcio ar y rhannau o'r ffordd sy'n cael eu heffeithio, gan ei gwneud hi'n haws i gerbydau symud ar hyd y ffordd, a gwella gwelededd hefyd. Bydd gwella'r gwelededd yn caniatáu mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr neu gerbydau a thrwy hynny leihau'r risg o wrthdrawiad.

Mae adolygiad o Stryd y Glyn, Stryd Glyn-mynach a Stryd Robert wedi'i gynnal hefyd, a hynny er mwyn nodi unrhyw newidiadau y mae modd eu gwneud i'r cyfyngiadau aros a llwytho cyfredol i sicrhau tarfu cyn lleied â phosibl ar nifer y lleoedd parcio sydd eisoes ar gael o ganlyniad i gyflwyno'r cynigion uchod. O ganlyniad i'r adolygiad yma, mae rhai rhannau o'r cyfyngiadau aros a llwytho cyfredol wedi'u lleihau ac mae mannau parcio rheoledig sydd eisoes ar gael wedi'u hadleoli.

## Cynnig i Estyn Cilfach Barcio i Bobl Anabl

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i estyn y gilfach barcio bresennol i bobl anabl yn Stryd Glyn-mynach, Ynys-y-bwl, er mwyn:

- Cadw neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi.

Bwriad y cynnig i estyn y gilfach barcio i bobl anabl yw creu mwy o le i ddeiliaid bathodyn glas sy'n ymweld â'r ardal yn dymuno defnyddio siopau ac amwynderau lleol barcio.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, YNYSYBWL)**

**(REVOCATION, VARIATION, WAITING AND LOADING RESTRICTIONS, LIMITED WAITING,**

**HEAVY GOOD VEHICLE LOADING BAY AND DISABLED PARKING BAY) ORDER 2026**

## STATEMENT OF REASONS

**Proposed One-Way**

The Council has developed proposals to introduce one-way system in Glyn-Mynach Street and Glyn Street, Ynysybwl, in order to:

- Facilitate the passage on the road for vehicles
- Avoid danger to persons or other traffic using the road and to prevent the likelihood of such danger arising

The one-way would result in vehicles being permitted to enter Glyn-Mynach Street/Glyn Street from the junction of Glyn-Mynach Street/Robert Street and implement a no entry for those wishing to turn from Robert Street into Glyn Street. Further details of the permitted direction of travel as indicated by arrows on the proposal's associated drawing (TM24/491/PN).

The proposal intends to reduce risk of vehicular congestion that may be caused by drivers waiting for oncoming vehicles to pass as the affected lengths of road feature heavy on-street parking which restricts two-way traffic flow. It is hoped that in turn this will reduce likelihood of vehicular collision.

**Proposed Parking, Waiting & Loading Amendments**

The Council has developed proposals to introduce prohibition of waiting at any time restrictions and/or prohibition of waiting, loading and unloading restrictions in lengths of Glyn-Mynach Street and Glyn Street, Ynysybwl, in order to:

- Facilitate the passage on the road for vehicles
- Avoid danger to persons or other traffic using the road and to prevent the likelihood of such danger arising

The proposed changes will help ensure that the affected lengths are kept clear of parking, making it easier for vehicles to manoeuvre said lengths whilst also increasing visibility. The increase in visibility will allow drivers more time to react to oncoming hazards such and pedestrians or oncoming vehicles, therefore reducing risk of collision.

A review of Glyn Street, Glyn-Mynach Street and Robert Street has also been undertaken to identify any changes that can be made to the existing waiting and loading restrictions to ensure that there are minimal impacts on the existing parking capacity resulting from the above-mentioned introductions. As a result of this review some extents of existing waiting and loading restrictions have been reduced and existing controlled parking bays relocated.

**Proposed Disabled Parking Bay Extension**

The Council has developed proposals to extend the existing disabled persons parking bay in Glyn-Mynach Street, Ynysybwl, in order to:

- Preserve or improve the amenities of the area through which the road runs

The proposed disabled parking bay extension intends to better accommodate blue badge holders visiting the area wishing to access local shops and amenities